

# Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Hydref 9fed yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Arwel Davies (Cadeirydd), Rhys Richards, Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Gwynedd Jones, Jean Roberts a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwilym Davies, Euros Puw, Geraint Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Gofynnwyd i'r clerch anfon at Geraint a Rachel Davies, Fedw Arian i'w llongyfarch ar enedigaeth eu merch fach yn ddiweddar.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

## Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

### Bin ysbwriel ychwanegol i groesffordd Y Fron, Parc.

Roedd y clerch wedi derbyn cadarnhad bod y gwyn wedi cael ei phasio'n mlaen i swyddfa Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon.

## Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### a) Partneriaeth Penllyn

i) Copi o gofnodion y cyfarfod diwethaf, 12/9/12.

### b) Cyngor Gwynedd

i) Rhaglen Waith Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Hydref.

ii) Holiadur yn gofyn am farn y Cyngor am wasanaeth yr Adran Priffyrdd. Gofynnwyd i'r clerch i'w gwblhau ar ran y Cyngor gan nodi eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a geir gan y swyddfa yn Nolgellau ond roedd hi'n anodd cael ymateb o'r swyddfa yng Nghaernarfon.

iii) Derbyniwyd gwybodaeth am eu hymgyngoriad cyhoeddus ynglŷn â gorchmynion rheoli cwn.

iv) Derbyniwyd copi o'r llythyr a anfonwyd gan y Llywodraeth i Gyfarwyddwr Addysg Gorfforaethol Cyngor Gwynedd ynglŷn â'u penderfyniad i gau Ysgol Y Parc. Trafodwyd cynnwys y llythyr a gofynnwyd i'r clerch wneud ymholiadau ynglŷn â rôl y Cyngor Cymuned gyda'r adeilad ar ôl i'r ysgol gau.

## Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

NP5/72/224 - Codi tŷ i weithiwr amaethyddol. Tir yn Fferm Fron Gain, Maesywaen.

NP5/72/LB143B - Caniatâd Adeilad Rhestredig. Eglwys Beuno Sant, Llanycil.

Cytunwyd i gefnogi'r ceisiadau.

### Cais am dystysgrif defnydd cyfreithiol am storfa. Blaen y Cwm, Parc.

Derbyniwyd llythyr yn gofyn am unrhyw wybodaeth am y defnydd tir yn ystod y ddeng mlynedd diwethaf. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw sylwadau.

## Materion Ariannol.

### Datganiad Blynyddol.

Derbyniwyd y Datganiad yn nol gan UHY Hacker Young gyda'r cadarnhad olaf ei fod yn gywir. Cytunwyd i arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad'.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) Cyflog y clerch (Gorffennaf i ddiwedd Medi)

- ii) CTHEM (Gorffennaf i ddiwedd Medi)
- iii) UHY Hacker Young (archwilydd allannol)

### **Unrhyw Fater Arall.**

Ffogydd ar y ffordd o Lanerch Las i bentref Parc a ger Ceunant Uchaf, Maesywaen.

Roedd y cynghorwyr wedi derbyn cwynion bod angen clirio'r ffogydd ar hyd y ffordd o Lanerch Las i Parc gan fod y dŵr yn dod drosodd ac y gallai fod yn berig yn y gaeaf. Roedd peipen a oedd yn mynd o dan y ffordd ger Ceunant Uchaf hefyd wedi tagu ac angen ei chlirio. Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion ymlaen i Gyngor Gwynedd a chytunodd Rhys Richards i gyfarfod gyda'r swyddogion os oedd angen.

Cilfan newydd ar y ffordd rhwng Groeslon a phont Ceunant, Maesywaen.

Dros y blynyddoedd diwethaf roedd cynnydd yn nefnydd y ffordd ac roedd y trigolion lleol yn teimlo bod angen cilfan i gerbydau cael pasio ei gilydd. Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater ymlaen i Gyngor Gwynedd a chytunodd Gwynedd Jones i gyfarfod gyda'r swyddogion os oedd angen.